ymchwil canser cymru
cancer research wales

# Diolch




Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

**Ymchwilcanser.cymru**

Rhif Elusen Gofrestredig: 1167290

# Diolch i chi

Rydyn ni wedi buddsoddi
**£41.86 miliwn**
mewn ymchwil canser arloesol yng Nghymru.

Rydyn ni'n ariannu 52 o brosiectau ymchwil ar hyn o bryd gyda buddsoddiad o **£8.85 miliwn.**

Rydyn ni'n ariannu pedwar treial clinigol ar hyn o bryd gyda buddsoddiad **o £3 miliwn.**

Mae **dros 2,000 o gleifion** wedi cymryd rhan yn ein treialon clinigol yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Mae ein prosiectau ymchwil wedi denu dros
**£11 miliwn**
o fuddsoddiad meddygol ychwanegol i Gymru.

Mae ein prosiectau ymchwil wedi **dylanwadu'n uniongyrchol** ar bolisi iechyd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ganser.

Mae ein hymchwil yn parhau i gyfrannu at wybodaeth a **dealltwriaeth fyd-eang** ynglŷn â chanser.

Mae ein hymchwilwyr yn gweithio gydag arbenigwyr eraill ar ganser ar **draws y byd** i ddod ag arloesiadau blaengar i Gymru.

**Ni allwn wneud hyn heb eich cefnogaeth ryfeddol – diolch am ein helpu i ariannu ymchwil canser o'r radd flaenaf yma yng Nghymru ar gyfer Cymru.**

# Neges oddi wrth Adam

Helô – Adam Fletcher ydw i – Prif Swyddog Gweithredol Ymchwil Canser Cymru.

Mae'n fraint i mi ysgrifennu atoch unwaith eto i ddweud 'Diolch' am gefnogi ein helusen wrth i ni ddathlu ein 60fed pen-blwydd.

Ni yw elusen ymchwil canser Cymru – mae llawer o bobl yn credu ar gam ein bod ni'n gysylltiedig ag elusennau eraill, ond, na – rydyn ni'n elusen gwbl annibynnol.

Ar ben hynny, ni yw'r unig elusen sydd wedi ymroi i ariannu ymchwil canser yng Nghymru.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyffrous iawn – bu'n flwyddyn a'n gwelodd yn dyfarnu ein rownd fwyaf erioed o grantiau ymchwil canser – y swm rhyfeddol o £2.86 miliwn i sbarduno arloesedd wrth wneud diagnosis o ganser a'i drin yma yng Nghymru.

A dyna sydd wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud a pham rydyn ni'n bodoli – ein nod yw uno Cymru yn erbyn canser trwy ymchwil canser o'r radd flaenaf yma yng Nghymru.

Wrth i chi ddarllen hwn, gobeithiaf y byddwch yn gweld mai eich cefnogaeth chi sy'n caniatáu i ni wneud y gwaith pwysig yma sy'n achub bywydau.

Felly, unwaith eto, i bawb sydd wedi rhedeg rasys 10K, hanner marathonau a marathonau ar ein rhan; cynnal nosweithiau cwis a gwerthu cacennau i godi arian i ni – Diolch.



I holl aelodau dygn a gweithgar ein pwyllgorau codi arian – Diolch.

I'r bobl sy'n cyfrannu rhoddion, siopa a gwirfoddoli yn ein 16 o siopau ledled Cymru – Diolch.

I'r holl fusnesau y mae eu haelodau staff wedi ein helpu i godi arian a rhoi o'u hamser yn hael iawn i ni – Diolch.

I'n llysgenhadon rhyfeddol – gan gyfeirio'n arbennig eleni at Mari Grug a Millie-Mae Adams – Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud ar ein rhan.

I Rachel, Amy a Dr Adams am ganiatáu i ni gynnwys eu straeon – Diolch.

Ac i chi am fod yn gefnogwr ffyddlon Ymchwil Canser Cymru – Diolch.



# Ymchwil canser yng Nghymru ar gyfer Cymru

Eleni, mae Ymchwil Canser Cymru wedi parhau i gyflawni ymchwil canser arloesol yma yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru.

Ers 1966, rydyn ni wedi buddsoddi £41.86 miliwn i sbarduno arloesedd wrth wneud diagnosis o ganser a'i drin, ac mae gennym dros £8.85 miliwn wedi'i fuddsoddi ar hyn o bryd mewn 52 o brosiectau ymchwil byw.

Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o raddau PhD i gefnogi a datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr canser yng Nghymru a phedwar treial clinigol sydd, gyda'i gilydd, wedi recriwtio mwy na 2,000 o gleifion yng Nghymru hyd yma.

Mae ein hymchwil yn cael ei chynnal ledled Cymru – gan gynnwys ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru, ac mae'n cynnwys partneriaid fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chanolfan Ymchwil Canser Cymru.

Eleni, rydyn ni wedi cyhoeddi'r swm uchaf erioed o gyllid newydd, gan ymrwymo dros £2.86 miliwn i 20 prosiect ymchwil canser newydd. Mae'r cyllid pwysig hwn yn ein 60fed flwyddyn yn dangos ein bod yn parhau i wthio ffiniau ymchwil arloesol yn fwy nag erioed.



Un o uchafbwyntiau cyllid eleni yw Cymrodoriaeth gyntaf Ymchwil Canser Cymru i Dr Bruce MacLachlan i barhau â'i ymchwil i ddatblygu imiwnotherapïau sy'n gweithio i bawb ni waeth am eu geneteg.

Yn ôl yn 2024, fe lansion ni ein Menter Ymchwil Tiwmorau'r Ymennydd (BATRI) er mwyn i Gymru arwain y byd mewn ymchwil ynglŷn â'r clefyd dinistriol hwn, ac ers hynny mae BATRI wedi mynd o nerth i nerth.



Hyd yma, rydyn ni wedi buddsoddi dros £1.72 miliwn mewn prosiectau ymchwil newydd ynglŷn â thiwmorau'r ymennydd ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys datblygu triniaethau newydd a deall sut i ddarparu'r gofal gorau i gynorthwyo cleifion a'u teuluoedd.

Yn 2025, fe gynhalion ni gynhadledd ryngwladol gyntaf erioed Cymru ar diwmorau'r ymennydd a ddenodd bron 100 o bobl – gan gynnwys ymchwilwyr, staff y GIG a chleifion. Cawsant lawer o gyflwyniadau diddorol ar bob agwedd ar diwmorau'r ymennydd, gan gynnwys mewnwelediadau arbenigol gan ein siaradwyr gwadd. Roedd y gynhadledd yn llwyddiant mawr ac fe amlygodd ein hymrwymiad i arwain a sbarduno ymchwil ynglŷn â thiwmorau'r ymennydd yng Nghymru.

Mae'r galw am ein cyllid gan ymchwilwyr canser yng Nghymru wedi bod yn ddigynsail yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac er ein bod yn cefnogi mwy o wyddonwyr nag erioed, mae diffyg sylweddol o hyd yn yr hyn y gallwn fforddio ei ariannu. Gan fod nifer yr achosion o ganser yn codi bob blwyddyn, mae eich cefnogaeth yn hollbwysig i'n helpu i barhau i wthio'r ffiniau a sbarduno arloesedd mewn ymchwil canser yma yng Nghymru.





## Stori Rachel:

Mae Rachel Reed yn byw gyda'i gŵr, Dean, ym Mhontypridd a chafodd ddiagnosis o ganser y coluddyn yn 2018, a hithau'n 33 oed yn unig, ar ôl 18 mis o geisio atebion i symptomau gan gynnwys poen yn yr abdomen a blinder.

Roedd y diagnosis yn sioc i Rachel, a ddywedodd ei bod yn credu ei bod yn 'ddiogel rhag canser' oherwydd ei bod yn egnïol ac yn gofalu am eu hiechyd.

Mae Rachel yn awyddus i rannu ei stori er mwyn helpu Ymchwil Canser Cymru i newid bywydau er gwell, oherwydd achubwyd ei bywyd gan ddatblygiadau mewn triniaethau ac ymyriadau.

"Doeddwn i ddim wedi adnabod unrhyw un o'r symptomau. Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod y blinder a'r poenau yn y stumog yn rhybuddion. Oherwydd fy mod yn eithaf egnïol, yn mynd i'r gampfa, yn bwyta fy mhum darn o ffrwythau a llysiau y dydd, ddim yn yfed nac yn ysmygu, roeddwn i'n meddwl bod fy risg o gael unrhyw beth fel canser yn eithaf isel. Ni chroesodd fy meddwl, hyd yn oed, felly fe syfrdanodd y newyddion fi'n llwyr."

"Os gallaf atal un person rhag cael diagnosis hwyr, fel fi, byddaf yn fodlon. Nid yw llawer o bobl ifanc yn sylweddoli y gall ddigwydd iddyn nhw hyd yn oed os ydynt yn ffit, yn iach ac yn ifanc. Doeddwn i ddim yn ymwybodol o hynny o gwbl. Roeddwn i'n meddwl fy mod yn ddiogel rhag canser oherwydd fy oedran."



# Troi milltiroedd yn gyllid ymchwil canser

Mae ein cefnogwyr yn ein rhyfeddu'n gyson – y bobl arbennig sy'n aml yn mynd allan i hyfforddi ym mhob math o dywydd ac ar bob adeg o'r dydd – ac yn rhoi 100% i baratoi ar gyfer cymryd rhan yn un o'n digwyddiadau.

Maen nhw'n gwthio eu hunain i'r eithaf fel y gallant godi arian i ni a helpu i gyflawni prosiectau ymchwil canser o'r radd flaenaf er budd pobl Cymru.

Ac maen nhw'n gwneud hyn ar adeg pan fo costau byw'n anodd i bawb, ond maen nhw'n llwyddo o hyd ac yn codi symiau rhyfeddol o arian i Ymchwil Canser Cymru.

Y llynedd, cynrychiolodd ein rhedwyr Ymchwil Canser Cymru mewn digwyddiadau gan gynnwys Marathon Llundain, 10K Ynys y Barri, yr Uwch Haneri – yn Lisbon, Caerdydd, Prague, Berlin, Valencia a Copenhagen; a Hanner Marathon Caerdydd.

Diolch – mae'r holl filltiroedd yna wedi cynhyrchu cyllid ymchwil y gellir ei ddefnyddio i wthio ffiniau ymchwil canser yng Nghymru a rhoi gobaith i bobl y mae'r clefyd creulon hwn yn effeithio arnynt, a'u teuluoedd a'u hanwyliaid.

Os hoffech gymryd rhan yn un o ddigwyddiadau her Ymchwil Canser Cymru, ymwelwch â'n gwefan a chliciwch ar y tab **'Cymryd Rhan'** i ddod o hyd i gyfres o ddigwyddiadau a syniadau ar gyfer codi arian.

## Stori Amy:

Cafodd Amy Isidoro ddiagnosis o ganser saith mlynedd yn ôl pan oedd ei mab, Ben, yn chwe mis oed yn unig a'i merch, Phoebe, yn bump.

Mae hi wedi bod yn rhydd rhag canser ers 2021, ac yn 2025 siaradodd Amy am sut mae ei phrofiadau wedi ffurfio ei ffordd o feddwl am fywyd a'i hargyhoeddi o'r angen i greu atgofion arbennig gyda'i theulu, i gefnogi ein hymgyrch Rhoi Amser yn Anrheg.

"Rwy'n cofio meddwl, 'Alla' i ddim colli Nadolig cyntaf fy mab' – roeddwn i'n teimlo'n ofnadwy ac roedd canser wedi meddiannu mis Rhagfyr yn llwyr. Rwy'n cofio meddwl, 'Bydd Phoebe yn fy ngweld heb wallt a bydd yn gwybod fy mod i'n sâl. Dyna beth oeddwn i'n poeni amdano – 'Bydd yn rhyfedd ac fe fydd hi'n ofnus' – doeddwn i ddim eisiau iddi fy ngweld yn sâl", meddai Amy.

"Ar ôl i'r driniaeth orffen, fe sylweddolais y gallai pethau fod wedi mynd o chwith ac fe allwn i fod wedi marw. Roedd yn anodd ac roeddwn i'n cael trafferth ymdopi. Rwy'n credu'n gryf mewn creu atgofion oherwydd dydych chi ddim yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd – dydych chi ddim yn gwybod ai dyma'ch Nadolig olaf neu'ch pen-blwydd olaf."



# Gadael rhodd i Ymchwil Canser Cymru

Mae rhoddion mewn Ewyllysiau yn bwysig iawn i Ymchwil Canser Cymru – maen nhw'n helpu i ariannu ymchwil arloesol sy'n digwydd yma yng Nghymru, gan arwain at ddiagnosis cynharach, triniaethau mwy caredig ac, yn y pen draw, canlyniadau gwell i'r rhai y mae canser yn effeithio arnynt.

Mae'r cymynroddion hael hyn yn sicrhau y gallwn barhau i wneud darganfyddiadau sy'n achub bywydau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob rhodd a adewir i ni, ni waeth beth fo'i maint, yn waddol parhaus o obaith.

Mae pobl sy'n dewis ein cofio yn eu Hewyllys – a'r gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n helpu i wireddu hynny – yn ein galluogi i barhau â'n cenhadaeth i greu dyfodol sy'n rhydd rhag canser.

Mae llunio Ewyllys yn broses syml ac nid oes rhaid iddi fod yn ddrud.

Rydyn ni bob amser yn argymell eich bod yn cael cyngor proffesiynol, fel y gallwch sicrhau bod eich Ewyllys yn cael ei hysgrifennu'n iawn ac yn bodloni eich gofynion.

Efallai bod gennych gyfreithiwr eisoes, ond os na, fe allech ofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i argymell un, neu ddod o hyd i un yn eich ardal leol ar wefan Cymdeithas y Gyfraith.

Fel arall, fe allwch lunio'ch Ewyllys gan ddefnyddio un o'n gwasanaethau ysgrifennu Ewyllys yn rhad ac am ddim. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan.

**I gynnwys Ymchwil Canser Cymru yn eich Ewyllys, bydd arnoch angen enw llawn ein helusen, ein cyfeiriad a'n rhif elusen gofrestredig:**

Ymchwil Canser Cymru
22 Llys Neifion
Ffordd Vanguard
Caerdydd
CF24 5PJ

Rhif Elusen Gofrestredig: 1167290



## Stori Dr Adams:

Mae'r oncolegydd pediatrig, Dr Madeleine Adams, yn goruchwylio astudiaeth ynglŷn â defnyddio sganiau MRI ar gyfer plant 8-16 oed sydd newydd gael diagnosis o glioma gradd isel – math o diwmor yr ymennydd.

Mae Ymchwil Canser Cymru yn ariannu'r gwaith ymchwil hwn yng Nghanolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC), sy'n defnyddio sganiwr MRI datblygedig y ganolfan.

"Mae tua 150 o blant yn cael diagnosis o glioma gradd isel bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig, ac mae tua 6-10 ohonynt yn byw yng Nghymru. Yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, mae tua 100 o blant â glioma gradd isel sy'n cael triniaeth neu'n derbyn gofal dilynol. Mae gan lawer o'r plant hyn sgil-effeithiau sylweddol fel colli golwg, anawsterau symudedd ac anghydbwysedd hormonaidd" meddai Dr Madeleine Adams.

"Bydd y sganiwr MRI datblygedig y bwriedir ei ddefnyddio yn y prosiect hwn yn edrych ar strwythur y tiwmor yn fanylach na sganiau arferol. Rydym yn disgwyl y bydd y manylder ychwanegol hwn yn ein helpu i ddeall pam mae rhai tiwmorau'n ymddwyn yn fwy ffyrnig a phennu triniaethau'n fwy cywir, gyda'r nod yn y pen draw y gall mwy o diwmorau'r ymennydd gael eu hiachau yn y dyfodol ac y gellir gwella ansawdd bywyd hirdymor."

# Locations / Lleoliadau

## Our shops
## Ein siopau

- Bangor
- Caernarfon
- Llandudno
- Wrexham
  Wrecsam
- Swansea
  Abertawe
- Killay
  Cilâ
- Port Talbot
- Neath
  Castell-nedd
- Talbot Green
  Tonysguboriau
- Blackwood
  Y Coed-duon
- Merthyr Tydfil
  Merthyr Tudful
- Rhiwbina
  Rhiwbeina
- Whitchurch
  Yr Eglwys Newydd
- Penarth
- Chepstow
  Cas-gwent
- Caerphilly
  Caerffili

## Research projects
## Prosiectau ymchwil

- Bangor
- Wrexham
  Wrecsam
- Cardiff
  Caerdydd
- Swansea
  Abertawe

### Some of our funded projects

BiCCC: Preventing relapse in high-risk bowel cancer patients following surgery - Cardiff.

COLOSPECT: The Raman Blood Test for Early Detection of Bowel Cancer in Bowel Cancer Screening' - Swansea.

ThinkCancer! – Wrexham.

A Novel Role for the DNA Sensor IFI16 in the Cancer Cell Response to Chemotherapy - Bangor.

### Dyma rai o'n prosiectau sy'n cael eu hariannu

BiCCC: Atal ailwaelu mewn cleifion canser y coluddyn uchel eu risg yn dilyn llawdriniaeth – Caerdydd .

COLOSPECT: Prawf Gwaed Raman ar gyfer Canfod Canser y Coluddyn yn Gynnar wrth Sgrinio am Ganser y Coluddyn – Abertawe.

ThinkCancer! – Wrecsam.

Rôl Newydd ar gyfer y Synhwyrydd DNA IFI16 mewn Ymateb Celloedd Canser i Gemotherapi – Bangor.



*Information correct at time of publishing.

Cancer Research Wales shops sell a range of pre-loved, quality items and you can support them by shopping at, donating goods to and volunteering at them.

*Mae'r wybodaeth yn gywir ar yr adeg argraffu.

Mae siopau Ymchwil Canser Cymru yn gwerthu amrywiaeth o eitemau ail-law o ansawdd da a gallwch eu cefnogi trwy siopa ynddynt, cyfrannu nwyddau iddynt a gwirfoddoli ynddynt.

ymchwil canser cymru
cancer research wales

# Thank you




Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

**Cancerresearch.wales**

Registered Charity Number: 1167290

# Thanks to you

We have invested
**over £41.86 million**
in groundbreaking cancer research in Wales.

We are currently funding 52 research projects with an investment of
**£8.85 million.**

We are currently funding four clinical trials with an investment
**of £3 million.**

**Over 2,000 patients**
have taken part in our clinical trials in the last six years.

Our research projects have brought in over
**£11 million**
in extra medical investment into Wales.

Our research projects have
**directly influenced**
Welsh and UK Government health policy on cancer.

Our research continues to contribute
**to global knowledge**
and understanding of cancer.

Our researchers work with other cancer experts
**from around the world**
to bring cutting-edge innovations to Wales.

**We can't do this without your incredible support – thank you for helping us fund world-class cancer research here in Wales for Wales.**

# A message from Adam

Hello – I'm Adam Fletcher – Chief Executive Officer of Cancer Research Wales.

It's my privilege to write to you again to say 'Thank you' for supporting our charity as we celebrate our 60th anniversary.

We're the Welsh cancer research charity – many people mistakenly believe that we are connected to other charities, but, no – we're a 100% independent charity.

We're also the only charity dedicated to funding cancer research in Wales.

What an exciting 12 months it's been – it's been the year that has seen us awarding our biggest ever round of cancer research grants – an incredible £2.86 million to drive forward innovation in cancer diagnosis and treatment here in Wales.

And that's at the heart of what we do and why we exist – our aim is to unite Wales against cancer through world-class cancer research here in Wales.

As you read this, my hope is that you'll see that it's your support which is allowing us to carry out this important life-saving work.

So again, to all the people who've run 10K races, half-marathons and marathons for us; hosted quiz nights and bake sales to fundraise for us – Diolch.

For all the tenacious and hard-working members of our fundraising committees – Diolch.



For the people who donate, shop and volunteer at our 16 shops across Wales – Diolch.

To all the businesses whose staff members have helped with our fundraising and been incredibly generous with the time they've given us – Diolch.

To our incredible ambassadors – with extra special mentions this year to Mari Grug and Millie-Mae Adams – Diolch for everything you do for us.

To Rachel, Amy and Dr Adams for allowing us to feature their stories – Diolch.

And, to you for being a loyal supporter of Cancer Research Wales – Diolch.



# Cancer research for Wales




This year, Cancer Research Wales has continued to deliver groundbreaking cancer research here in Wales for the people of Wales.

Since 1966, we've invested £41.86 million to drive innovation in cancer diagnosis and treatment and we currently have over £8.85 million invested in 52 live research projects.

These include a series of PhDs to support and develop the next generation of cancer researchers in Wales and four clinical trials which together have recruited more than 2,000 Welsh patients so far.

Our research is taking place all across Wales – including at Bangor University, Cardiff University, Swansea University and University of South Wales and involves partners such as Betsi Cadwaladr University Health Board and the Wales Cancer Research Centre.

This year we've announced a record-breaking amount of new funding, with over £2.86 million committed to 20 new cancer research projects. This landmark funding in our 60th year, sees us continuing to push the boundaries of innovative research more than ever before.

A highlight of this year's funding is Cancer Research Wales's first Fellowship to Dr Bruce MacLachlan to continue his research developing immunotherapies that work for everyone regardless of their genetics.

Back in 2024, we launched our Brain Tumour Research Initiative (BATRI) to make Wales a world leader in research into this devastating disease, and since then, BATRI has gone from strength to strength.



To date, we have invested over £1.72 million into new brain tumour research projects across a range of areas including developing new treatments and understanding how to provide the best care to support patients and their families.

In 2025 we also hosted Wales's first ever international brain tumour conference which attracted almost 100 people - including researchers, NHS staff and patients, who were treated to many fascinating presentations on all aspects of brain tumours, including expert insights from our guest speakers. The conference was a real success and it highlighted our commitment to be at the forefront of and driving research into brain tumours in Wales.

Recent years have seen unprecedented demand from cancer researchers in Wales for funding from us, and while we are supporting more scientists than ever before, there is still a significant shortfall in what we can afford to fund. With the number of cancer cases rising each year, your support is vital to help us to keep pushing the boundaries and driving innovation in cancer research here in Wales.





## Rachel's Story:

Rachel Reed lives with her husband Dean in Pontypridd and was diagnosed with bowel cancer in 2018 aged just 33 after 18 months seeking answers for symptoms including abdominal pain and tiredness.

The diagnosis came as a shock to Rachel who said she thought herself 'cancer-proof' as she was always active and took care of her health.

Rachel is keen to share her story to help support Cancer Research Wales change lives for the better as her life was saved thanks to advancements in treatments and interventions.

"I didn't recognise any of the symptoms. With the tiredness and the stomach pains, I wasn't aware they were a red flag. Because I was quite active, I was a gym-goer, ate my five fruit and veg a day, I didn't drink, didn't smoke, I thought I was quite low risk of having anything like cancer. It didn't even cross my mind so when they told me I was in utter shock."

"If I can prevent one person from being diagnosed late as I did then I am happy. There are a lot of young people not aware that it can happen to them even if they are fit, healthy and young. I wasn't aware of that at all. I just thought I was cancer-proof at a young age."



# Turning miles into research funding

We're always amazed by our supporters – the incredible people who often go out training in all manner of weather conditions and times of day – and give it 100% to prepare themselves to take part in one of our events.

They push themselves to the limits so that they can fundraise for us and help deliver world-class cancer research projects to benefit the people of Wales.

And they do this at a time when the cost of living is challenging everyone, but they still manage it and raise incredible sums of money for Cancer Research Wales.

Last year, our runners took part for Cancer Research Wales in events including the London Marathon, the Barry Island 10K, the Super Halfs - in Lisbon, Cardiff, Prague, Berlin, Valencia and Copenhagen; and the Cardiff Half Marathon.

Diolch – all those miles have generated research funding that can be used to push the boundaries of cancer research in Wales and bring hope to people affected by this cruel disease, their families and loved ones.

If you want to take part in a Cancer Research Wales challenge event, just visit our website and click on the **'Get involved'** tab to find a series of events and ideas for your own fundraising.

## Amy's Story:

Amy Isidoro was diagnosed with cancer seven years ago when her son Ben, was just six months old and her daughter Phoebe, was five.

She has been cancer-free since 2021, and in 2025 Amy spoke about how her experiences have shaped her outlook on life and instilled in her the need to make special memories with her family, in support of our The Gift of Time campaign.

"I just remember thinking 'I can't miss my son's first Christmas' - I felt awful and the whole of December had just been cancer. I remember thinking, 'Phoebe's going to see me with no hair and she's going to know I'm not very well. That was my worry – 'It's going to be strange and she's going to be scared' - I didn't want her to see me being unwell", said Amy.

"After the treatment was all finished, I had the realisation this could have gone wrong and I might not have been here. It was difficult and I struggled. I'm really big on the need to make memories because you just don't know what's going to happen - you just don't know if this is your last Christmas or your last birthday."



# Leaving a gift to Cancer Research Wales

Gifts in Wills are incredibly important to Cancer Research Wales – they help fund pioneering research taking place right here in Wales, leading to earlier diagnoses, kinder treatments, and ultimately, better outcomes for those affected by cancer.

These generous legacies ensure we can continue making life-saving breakthroughs for future generations.

Every gift left to us, no matter the size, is a lasting legacy of hope.

It's thanks to people who choose to remember us in their Wills – and the legal professionals who help make that possible – that we are able to continue our mission of creating a cancer-free future.

It's straightforward to put a Will together and doesn't need to be expensive.

We always recommend you get professional advice, so you can make sure your Will is written properly and meets your requirements.

You may have a solicitor you already use, but if not, you could ask someone you know to recommend one, or find one in your local area on the Law Society website.

Alternatively, you can make your Will through one of our free Will writing services and you can find this information on our website.

**To include Cancer Research Wales in your Will, you need our full charity name, address and registered charity number:**

Cancer Research Wales
22 Neptune Court
Vanguard Way
Cardiff
CF24 5PJ

Registered Charity Number: 1167290



## Dr Adams's Story:

Paediatric oncologist Dr Madeleine Adams is overseeing a study of the use of MRI scans for children aged 8-16 with newly diagnosed low-grade glioma - a type of brain tumour.

Cancer Research Wales is funding this research based at Cardiff University Brain Research Imaging Centre (CUBRIC), which uses the centre's advanced MRI scanner.

"Around 150 children per year in the UK are diagnosed with low-grade glioma, with around 6-10 of these living in Wales. At Noah's Ark Children's Hospital, there are around 100 children with low-grade glioma undergoing treatment or receiving follow-up care. Many of these children have significant side effects such as loss of vision, difficulties with mobility and hormone imbalance" said Dr Madeleine Adams.

"The advanced MRI scanner planned for use in this project will look at the tumour structure in more detail than standard scans. We expect that this greater detail will help us to understand why some tumours behave more aggressively and pinpoint treatments more accurately, with the ultimate aim that, in future, more brain tumours can be cured and long-term quality of life can be improved."